

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____

Astudiaethau Beiblaidd ar Gyfraith Duw

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.



DARLLENWCH
Exodus 19: 14-25
a 20:1-7
Mathew 22:34-40



ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 22: 37

Astudiaeth I Y Gyfraith – “Un Duw”

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Exodus 19: 1-13 Esea 40: 18-31

Daethai'r Israeliaid allan o'r Aifft. Teithiasant tua'r dwyrain ac i mewn i'r anialwch. Erbyn hyn maent wrth ymyl Mynydd Sinai.

C Tynnwch linell yn ymestyn o bob un o'r lleoedd a restrir wrth ymyl y map i'r lleoliad cywir ar y map

Roedd cyrraedd Mynydd Sinai yn brofiad cofiadwy i'r Israeliaid.

C Llanwch y bylchau gyda'r geiriau cywir i'ch atgoffa o'r hyn ddigwyddodd.

Daeth Duw i lawr ar y mynydd mewn (ad.18); cafwyda ar yr un pryd (ad.16). Roedd rhaid i'r bobl ymbaratoi drwy (ad.14) eu dillad ac nid oeddynt i ddod yn agos i'r (ad.23). Roedd rhaid iddynt ddysgu bod Duw yn sanctaidd ac nad oedd modd i'r bobl na'r..... (ad.24) ddynesu Ato.

Ym mhennod 20, llefarodd Duw wrth Moses, a dywedodd wrtho Pwy yw Ef mewn gwirionedd a beth a wnaeth Ef drostynt.


C Atgoffodd Duw Moses am y peth pwysicaf oll a wnaeth Ef dros genedl Israel – beth oedd y peth hwnnw?

Dyma'r wers roedd yn rhaid i'r Israeliaid ei dysgu – os oeddynt i gerdded gyda Duw yn y dyfodol, roedd rhaid iddynt ufuddhau i'w orchmynion. Roedd y cenedloedd eraill o'u hamgylch yn addoli gwrthrychau a grëwyd, e.e. yr haul, y lleuad a'r sêr. Byddai eraill yn gwneud duwiau o gerrig, coed, aur neu arian. 'Eilunod' neu 'ddelwau' yw'r enwau a roddwn ar y rhain.

Eilun yw unrhyw beth sy'n cymryd lle Duw yn ein bywydau.

C Edrychwch ar Deuteronomium 9:16 a chwblhewch y frawddeg isod.

Cyn pen 40 niwrnod o gyrraedd Mynydd Sinai, roedd yr Israeliaid wedi llwyr anwybyddu'r gorchymyn cyntaf ac wedi dewis addoli



Yr Aifft

Canaan (Gwlad yr Addewid)

Mynydd Sinai

Y Môr Coch

2

3

1

1

C Edrychwch ar I Brenhinoedd 16: 31 a 32 ac ysgrifennwch enw'r eilun roedd pobl Israel yn ei addoli'n ddiweddarach yn eu hanes.

2

Mae'n bosibl nad ydych yn credu y byddai pobl ein hoes ni yn addoli eilunod neu ddelwau, fel y gwnâi'r Israeliaid. Ond, oes mae gennym ddelwau! Gallant fod yn rhai cwbl gyffredin, ond os ydynt yn llwyr feddiannu ein bywydau ac yn disodli Duw, a ddylai fod yn flaenaf, yna maent yn eilunod.

C Enwch 3 pheth a allai'n hawdd droi'n eilunod yn eich bywyd chi.

1	2	3
---	---	---

3

C Darllenwch Exodus 20:1-7 eto ac ysgrifennwch **GWIR** neu **ANWIR** wrth ymyl y canlynol:-

- Roedd Duw am i Israel ei addoli Ef yn unig.
- Roedd Duw yn fodlon pan oedd Israel yn addoli Ei greadigaeth.
- Bydd Duw yn cosbi'r rhai sy'n addoli eilunod.
- Roedd Duw am i'r rhai oedd yn Ei addoli ddangos eu cariad tuag
Ato drwy gadw Ei orchmynion.

4


Rhaid bod Duw'n tristáu ac yn gresynu pan fydd yn clywed nifer o bobl yn cymryd Ei enw, ac enw'r Arglwydd Iesu, yn ofer, h.y. eu defnyddio fel rhag (gair drwg). Mae Duw eisiau i bawb ddeall bod camdefnyddio Ei enw yn gamwedd mawr.

C Ysgrifennwch beth ddywedodd Duw yn Exodus 20:7.

1

Yn nyddiau'r Arglwydd Iesu, roedd y Phariseaid yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gwybod holl orchmynion Duw. Ychwanegasant eu rheolau eu hunain hyd yn oed, ac o ganlyniad aeth bywyd yn faich i bawb. Ar un achlysur, ym Mathew 22, ceisiodd un o'r Phariseaid roi prawf ar yr Arglwydd Iesu drwy ofyn cwestiwn anodd iawn Iddo.

C Beth oedd y cwestiwn?


1

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol - sef yr ateb a roddodd Iesu, a thanlinellwch y gair sy'n ymddangos dair gwaith ac sy'n pwysleisio faint y dylem garu Duw.

2



DARLLENWCH
Exodus 20: 8 -11
Luc 13: 10-17



ADNOD
ALLWEDDOL
Exodus 20: 8

Astudiaeth 2 Y Gyfraith – “Ffordd Dduw”



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen


Mathew 12: 1-14 Mathew 28: 1-15

Mae'r gorchmynion cyntaf yn pwysleisio 'Pwy yw Duw'. Roedd y rhain yn dangos yn glir i'r Israeliaid y dylent addoli ac ufuddhau i'r UNIG WIR DDUW. Mae'r gorchmyn yn y Darlleniad hwn o'r Beibl yn dweud wrthym sut roedd Duw yn disgwyl iddynt ymddwyn ar Ei ddiwrnod arbennig Ef.

GRID GEIRIAU

Llanwch yr atebion i'r cwestiynau ar y GRID GEIRIAU.

1. Rhif diwrnod pwysicaf yr wythnos yn achos yr Israeliaid
2. Creodd yr Arglwydd y nefoedd a'r _____
3. _____ Duw y Saboth. (ad.11)
4. _____ Duw y ddaear mewn chwe diwrnod.
5. Dywedwyd wrth yr Israeliaid am _____ ar chwe diwrnod.
6. Ar ôl y creu, _____ Duw ar y seithfed dydd.
7. Roedd rhaid cadw diwrnod pwysicaf yr wythnos yn _____



C Edrychwch ar y GRID GEIRIAU ac ysgrifennwch yr enw a roddodd yr Arglwydd ar ddiwrnod pwysicaf yr wythnos.



Creodd Duw bopeth yn ein byd mewn chwe diwrnod (gweler Genesis 1), a gorffwysodd ar y seithfed dydd (Genesis 2:2). Mae Duw nawr yn gorchmyn i'r Israeliaid orffen eu gwaith erbyn y chweched diwrnod a neilltuo, neu gysegru'r seithfed dydd fel eu diwrnod gorffwys. Mae'r Iddewon hyd heddiw yn cadw dydd Sadwrn, eu Sabath, yn ddiwrnod cysegredig ac yn ddydd o orffwys er mwyn iddynt fynd i'r synagog.

Byth ers amser yr Arglwydd Iesu, mae Cristnogion wedi neilltuo diwrnod cyntaf yr wythnos.

C Edrychwch ar Mathew 28:1 a 6, a chrynowch YN EICH GEIRIAU EICH HUN beth ddigwyddodd ar y diwrnod hwnnw.



C Rhowch groes drwy'r sylwadau sydd HEB FOD yn cytuno â'r Beibl.

Nid Duw greodd y byd – digwyddodd drwy 'hap a damwain'

Rhyw chwedl dylwyth teg yw Genesis pennod 1

Ni ddylai dydd Sul fod yn wahanol i unrhyw ddiwrnod arall.

Duw luniodd y cread i gyd.

Fedrwn chi ddim profi i Iesu godi o farw!

Dylai Cristnogion feddwl am ddydd Sul fel Dydd Duw a'i gysegru Iddo Ef.

4

Heddiw, prin yw'r bobl hynny sy'n trafferthu cadw'r 'pedwerydd gorchymyn', ond nid felly roedd hi yn ystod dyddiau'r Arglwydd Iesu.

C Darllenwch Luc 13: 10-17 unwaith eto. Isod, fe welwch wyth gair o'r Darlleniad o'r Beibl. Gosodwch nhw yn y bylchau cywir yn y paragraff sy'n dilyn.

unionsyth welodd saboth synagog ysbryd
waredu dywedodd Satan

Un dydd roedd yr Arglwydd Iesu yn dysgu mewn..... Roedd yno wraig oedd a'i chefn yn wan ac wedi'i grymu gan..... ers deunaw mlynedd. Doedd hi ddim yn gallu sefyll yn..... Pan Iesu hi,Ef wrthi, "Wraig, yr wyt wedi dy o'th wendid. Dododd Ei ddwylo arni a'r funud honno ymsythodd a dechreuodd foli Duw. Pan ddechreuodd rheolwr y synagog weld bai Arno, esboniodd yr Arglwydd Iesu mai oedd wedi rhwymo'r wraig hon yn gaeth.

4

Gwelwyd achosion fel hyn yn digwydd lawer tro ym mywyd yr Arglwydd Iesu. Byddai Ef bob tro yn tynnu sylw at y ffaith fod y Phariseaid yn mynd â'r gyfraith i'r pen draw eithaf. Roedden nhw'n dweud nad oedd hawl gwneud dim byd o gwbl ar y Saboth. Dywedodd yr Arglwydd Iesu, os oes gan bobl neu anifeiliaid anghenion ar y Saboth, yna does neb ohonom yn torri cyfraith Duw os byddwn yn eu helpu.

Unwaith eto, roedd yr Arglwydd Iesu yn cymryd gorchymyn ac yn dangos bod ystyr ddyfnach i'r geiriau.

Y Gorchymynion hyn yw'r safon y mae Duw wedi'i rhoi i gymdeithas, ac felly rhaid ufuddhau iddynt. Eto i gyd, does neb ohonom yn gallu gwneud hynny, felly does dim modd i ni fod yn iawn gyda Duw drwy geisio'u cadw. Ond gall Duw faddau i ni ein pechodau pan fyddwn ni'n rhoi ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu. Mae Ef yn rhoi bywyd newydd i ni, a gyda chymorth yr Ysbryd Glân, gallwn blesio Duw a byw fel y dylem.



C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellwch y gair sy'n pwysleisio y dylai'r Saboth fod yn ddiwrnod arbennig.

2



DARLLENWCH
Exodus 20: 12-21
Marc 10: 17-31



ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 6: 24

Astudiaeth 3 Y Gyfraith – “Duw’n Gyntaf”

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i’w Darllen

Mathew 5: 21-30 Effesiaid 6: 1-4

Pan fyddwn ni’n chwarae gemau neu’n cymryd rhan mewn chwaraeon, rhaid i ni gadw rheolau’r gamp honno. Pan fyddwn ni’n coginio, rhaid i ni ddilyn y rysâit. Pan fyddwn ni’n teithio fel beicwyr neu gerddwyr, rhaid i ni ufuddhau i Reolau’r Ffordd Fawr – yr *Highway Code*. Felly hefyd mewn bywyd, rhaid i ni wrth ganllawiau neu orchmynion Duw, neu does dim gobaith i ni fynd y ffordd mae Duw yn dymuno i ni fynd. Mae’r astudiaeth hon yn esbonio wrthym beth mae Duw’n ei ddisgwyl ym mhob un o agweddau amrywiol ein bywyd.

C Darllenwch Exodus 20: 12-17 ac ysgrifennwch yr ymadrodd sy’n digwydd pump o weithiau.

Y gorchymyn yn adnod 12 yw’r un sy’n effeithio ar bob un ohonom yn ein cartref ac yn ein bywyd teuluol, ac yn arbennig yn ein hagwedd tuag at ein rhieni neu’r bobl sy’n gofalu amdanom.

C Beth yn eich barn chi yw ystyr y geiriau ‘anrhydedda’ neu ‘parcha’ yn yr adnod hon? (Mae cliw yn Effesiaid 6: 1 a 2)

Esboniodd yr Arglwydd Iesu yn Ei ‘Bregeth Fawr ar y Mynydd’ (Mathew penodau 5 i 7) y gall ein meddyliau, yn ogystal â’n gweithredoedd, fod yn ddrwg.

C Defnyddiwch y geiriau canlynol i gwblhau’r paragraff nesaf.
(Edrychwch ar Mathew 5: 21-30)

feddyliau a chwantau eisiau llofruddio godineb flin ddwyn

Dywedodd yr Arglwydd Iesu ei bod yn bechod i golli eich tymer a bod yn, yn ogystal â rhywun mewn gwirionedd. Hefyd, os oes gan rywun drwg am rywun o’r rhyw arall, mae hyn yr un mor ddrwg â chyflawni Mae’n wir i ddweud hefyd os ydymrhywbeth sy’n eiddo i rywun arall, gallai arwain at

C Ticiwch yr esboniad gorau ar y gorchmynion sydd i’w gweld yn Exodus 20: 16 ac 17.
Adnod 16

- Does dim ots beth fyddwch chi’n ei ddweud am eich cymydog.
- Peidiwch byth â dweud celwydd am eich cymydog.
- Dylech bob amser ddweud wrth eich cymdogion beth ry’ch chi’n feddwl amdanyn nhw.

Adnod 17

- Peidiwch chwennych (bod eisiau) unrhyw beth sy’n eiddo i’ch cymdogion neu’ch ffrindiau.
- Dylech bob amser fenthyg unrhyw beth allwch chi oddi wrth eich cymydog.
- Dylech ddisgwyl i’ch cymydog rannu ei holl eiddo â chi.

1

2

6

2


C Ysgrifennwch frawddeg gyntaf a brawddeg olaf yr Adnod Allweddol a thanlinellwch enw'r person ddylai ddod gyntaf yn ein bywydau.

2

CHWILAIR


Edrychwch ar Marc 10: 17-26 a llanwch y bylchau â'r geiriau cywir, yna rhowch gylch o gwmpas pob un o'r geiriau hynny yn y Chwilair. Maent wedi eu cuddio tuag ymlaen, tuag yn ôl, i fyny, i lawr, yn groeslinol neu ar draws.

1. Roedd y dyn eisiau bywyd
2. Credai'r dyn bod rhaid iddorhywbeth.
3. â'r Arglwydd Iesu.
4. o flaen Iesu.
5. Gofynnodd Iesu iddo, "Pam yr wyt yn fy ngalw i yn"?
6. Atgoffodd Iesu'r dyn ei fod yn gwybod y
7. Dywedodd y dyn ei fod wedi eu
8. Edrychodd Iesu arno ac fe'i



4

Roedd yr Arglwydd Iesu'n gwybod fod y dyn hwn wedi byw bywyd da a'i fod wedi gwneud ei orau, ond doedd hynny ddim yn ddigon. Roedd Ef hefyd yn gwybod bod rhywbeth yn ei fywyd roedd e'n yn dal i roi mwy o werth arno nag ar Dduw. Roedd hyn yn ei rwystro rhag rhoi'r Arglwydd yn gyntaf a'i ddilyn Ef.



C Beth ofynnodd yr Arglwydd Iesu iddo ei wneud?

--

1

C Beth oedd ymateb y dyn?

1

C Oedd y dyn yn iawn pan ddywedodd ei fod wedi cadw'r holl orchmynion? (adnod 20) Rhowch reswm dros eich ateb.

1

Nid yw'r Arglwydd Iesu yn dweud y dylem ni werthu ein holl eiddo er mwyn bod yn wir ddisgybl neu'n Gristion. Mae Ef yn dweud bod rhaid symud beth bynnag sy'n dod rhyngom ni â Duw. Dim ond pan fydd Ef yn cael y lle blaenaf y gallwn ni ddechrau Ei ddilyn Ef!



DARLENWCH
Marc 7: 1-23



ADNOD
ALLWEDDOL
I Timotheus 1:15
Rhufeiniaid 5:8

Astudiaeth 4 Y Gyfraith – “Gair Duw”



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Deuteronomium 6: 4-9 Eseia 29: 13 Rhufeiniaid 3: 21-26 Galatiaid 3: 1-14

Pan fydd lleidr yn cael ei ymlid gan yr heddlu, gallai ddweud, “Mae'r Gyfraith ar fy ôl!”. Mae e'n golygu'r heddlu a chyfraith y wlad hefyd, wrth gwrs. Yn amser yr Arglwydd Iesu, roedd yr Iddewon wedi casglu ynghyd y gorchmynion a'r holl gyfarwyddiadau eraill roedd Duw wedi eu rhoi i Moses, a'u galw wrth yr enw ‘Y Gyfraith’. Heddiw, mae rhai Iddewon yn dal i ystyried mai'r Gyfraith yw eu hysgrifeniadau mwyaf sanctaidd a byddant yn darllen hon, yn ei dysgu, ei hymarfer ac yn ei pharchu fel Cyfraith Dduw. Gwelir ‘meswsa’ ar bostyn drws nifer o gartrefi Iddewig. Mae hwn yn cynnwys rhan o'r Gyfraith a bob tro y bydd aelodau'r teulu yn mynd allan bydd yn eu hatgoffa bod rhaid iddynt gadw'r Gyfraith.




Y Meswsa

C Edrychwch ar Deuteronomium 6: 6 a 9 ac ysgrifennwch y gorchymyn arbennig hwn a roddodd Moses.

2

Gwaetha'r modd, erbyn cyfnod yr Arglwydd Iesu, roedd yr athrawon Iddewig wedi llunio llawer o fân gyfreithiau eraill hefyd. Pe bai pobl yn gallu cadw pob un o'r cyfreithiau bach hyn, meddent, yna byddai hynny'n eu harbed rhag torri Cyfraith Dduw!



C Edrychwch ar y Darlleniad o'r Beibl ac atebwch y cwestiynau hyn mewn un gair neu frawddeg.

1) Beth oedd y disgyblion yn ei wneud oedd yn ddrwg yng ngolwg rhai?

--

2) Beth ddylen nhw fod wedi ei wneud?

--

3) Roedd y Phariseaid yn meddwl y dylai'r disgyblion fod wedi ufuddhau i beth?

--

4) Galwodd Iesu'r Phariseaid yn?

--

5) O ba lyfr yn yr Hen Destament y dyfynnodd yr Arglwydd Iesu wrth siarad â'r Phariseaid?

--

5

C Tanlinellwch y geiriau cywir yn y paragraff sy'n dilyn.

Dywedodd yr Arglwydd Iesu, "Y mae'r bobl hyn yn fy anrhydeddu â'u **meddyliau / traed / gwefusau** ond y mae eu **dwyllo / llygaid / calonnau** ymhell oddi wrthyf; yn ofer y maent yn fy **moli / nilyn / addoli**; gan ddysgu **syniadau / awgrymiadau / gorchmynion** a rheolau dynol fel athrawiaethau."

4

Roedden nhw mor brysur yn ceisio cadw'r holl bethau ychwanegol roeddent wedi eu hychwanegu at eiriau Duw, fel eu bod wedi colli golwg ar yr hyn oedd gwir ewyllys Duw ar gyfer eu bywydau. Roedd syniadau dynion wedi cuddio ewyllys Duw!
Dyma dri gair o'r Beibl a thri Chyfeiriad Beiblaidd sy'n disgrifio sut brofiad gawn ni pan fyddwn yn methu cadw Gorchmynion Duw.

C Yn y blwch uwchben bob llun, ysgrifennwch y gair sy'n ei ddisgrifio orau ac yn y blwch o dan bob llun, ysgrifennwch y cyfeirnod Beiblaidd mwyaf priodol.

Dyled

Golyga hyn ein bod fel person sy'n Fethdalwr; rydym wedi 'mynd i ddyled' gyda Duw ac yn methu talu nô!

Rhufeiniaid 3: 23

Pechod




Daw hyn o'r syniad o fethu'r targed. Rydym wedi syrthio'n fyr o'r hyn y dylem fod, a'r hyn y dylem ei wneud hefyd!

Mathew 6: 12

Camwedd

Ystyr hyn yw torri gorchmynion Duw neu anwybyddu'r rheolau mae Ef wedi eu gosod fel canllawiau i'n bywydau.

I Ioan 3: 4



6

Os yw pob un ohonom wedi methu cadw Gorchmynion Duw, ac felly yn bechadur, yn droseddwr ac yn ddyledwr, oes unrhyw obaith i ni?

C Ysgrifennwch y ddwy Adnod Allweddol a THANLINELLWCH y geiriau sy'n dangos i ni nad oes unrhyw obaith!

3

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120